News release

Datganiad i'r Wasg

News release

**O DAN EMBARGO LLYM 00:01 Dydd Mercher 30 Hydref 2013**

# CHWE GRŴP YN CYSTADLU AM BLEIDLAIS DELEDU MILIYNAU'R BOBL YNG NGHYMRU

**Mae chwe grŵp yng Nghymru wedi cyrraedd y rhestr fer i frwydro dros y bleidlais gyhoeddus a gwerth £50,000 o arian loteri yng nghystadleuaeth deledu Miliynau'r Bobl eleni.**

**Ers i raglen Miliynau'r Bobl ddechrau yn 2005 mae'r gystadleuaeth wedi ariannu 32 o brosiectau cymunedol amrywiol ledled Cymru, gyda'r Gronfa Loteri Fawr yn dyfarnu'r swm syfrdanol o £1.7 miliwn o arian at achosion da.**

**Bydd Miliynau'r Bobl 2013, sydd i'w darlledu ar raglen newyddion rhanbarthol ITV Wales Tonight gyda'r hwyr yn yr wythnos sy'n dechrau 25 Tachwedd, yn rhoi cyfle i chwe grŵp cymunedol ar draws Cymru, o Gaernarfon i Gaerdydd, ennill pleidlais gyhoeddus ynghylch pam maen nhw'n haeddu dyfarniad Loteri a allai newid bywydau. Bob nos bydd dau grŵp yn ceisio ennill cefnogaeth gwylwyr i ennill £50,000, gyda'r cyhoedd yn pleidleisio dros y ffôn i benderfynu pwy fydd yn ennill.**

Mae tri dyfarniad o £50,000 ar gael yng Nghymru – un dyfarniad bob nos yn ogystal â dyfarniad bonws ar gyfer y prosiect sy'n dod yn ail gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau ar draws yr wythnos.

Dyma'r wythfed flwyddyn y mae'r Gronfa Loteri Fawr ac ITV wedi rhoi'r cyfle i'r cyhoedd ddewis ble mae arian achosion da'r Loteri'n mynd yn eu rhanbarth.

Ar **ddydd Llun 25 Tachwedd**, y ddau brosiect cyntaf i gystadlu yn erbyn ei gilydd fydd **Fathers Reaching Out** a **Challenge Wales**. Os bydd Fathers Reaching Out o **Ben-y-bont ar Ogwr** yn denu'r nifer uchaf o bleidleisiau byddant yn defnyddio'u dyfarniad **(£23,900)** i redeg y prosiect **Social Awareness of Postnatal Depression** – ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o'r stigma sy'n gysylltiedig ag iselder ar ôl geni a mynd i'r afael ag ef, gan gynnwys yr effaith ar fywyd teuluol a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan y salwch.

**Mwy i ddilyn…1/3**

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol Supported by The National Lottery®

Ond os yw **Challenge Wales** yn fuddugol byddant yn gwario **£50,000** ar y prosiect **Turning the Tide**. Mae elusen Challenge Wales yn anelu at ddatblygu hunan-barch a sgiliau bywyd pobl ifanc trwy gyfleoedd hwylio. Bydd y prosiect **Positive Future Voyages** yn cynnal ystod o ymweliadau synhwyraidd cyn y daith hwylio ynghyd â theithiau hwylio ar gyfer oddeutu 140 o bobl ifanc â nam ar y golwg a'u cymheiriaid ledled Cymru.

Ar **ddydd Mawrth 26 Tachwedd**, bydd **Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin** yn **Ne Cymru**'n mynd benben â'r elusen ddigartref **GISDA** yng **Ngogledd Cymru**. Os bydd **Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin (£40,294)** yn denu'r nifer uchaf o bleidleisiau dros y ffôn byddant yn rhedeg y prosiect **'Growing Green Teens'** i ddysgu pobl ifanc sut i dyfu a datblygu rhandir. Deuir â chnydau a dyfir ar y rhandir yn ôl i'r ganolfan ieuenctid lle bydd gwirfoddolwyr hŷn yn dysgu dulliau tyfu a gwerthu bwyd i'r bobl ifanc. Bydd y prosiect yn gwella bywydau pobl yn y gymuned trwy gyflwyno pobl ifanc ddifreintiedig i brosiect cadarnhaol a fydd yn eu helpu i fyw bywydau iach, yn gorfforol ac yn feddyliol. Byddant yn dysgu sgiliau garddio, tyfu, coginio a chynnal iechyd da.

Fodd bynnag, os bydd **GISDA** yn fuddugol byddant yn rhedeg y prosiect **Caffi Ni/Our Cafe (£50,000)**, a fydd yn agor caffi anffurfiol yng **Nghaernarfon** er mwyn i'r elusen ddigartref ddarparu profiad gwaith, sgiliau newydd, hyder a'r cymhelliad i fyw bywydau annibynnol llwyddiannus. Bydd y caffi'n llawn cyfarpar i greu cinio a lluniaeth ysgafn a bydd pobl ifanc yn derbyn achrediadau mewn sgiliau coginio, dechrau eu busnes eu hunain, iechyd a diogelwch a bwyd a hylendid. Bydd GISDA hefyd yn trefnu i asiantaethau allanol ymweld â'r safle dwywaith yr wythnos yn ogystal â threfnu sesiynau a bandiau meicroffon agored.

Ar **Nos Fercher 27 Tachwedd**, y noson bleidleisio olaf, bydd **Ymddiriedolaeth Action for Elders** yn cystadlu â **CBC Pinkspiration**. Os bydd Ymddiriedolaeth Action for Elders yn ennill y bleidlais byddant yn rhedeg y prosiect **'Balanced Lives' (£49,340)** yng **Nghaerdydd** a **Wrecsam** sydd â'r nod o wella bywydau pobl hŷn. Cynhelir y prosiect mewn canolfannau cymunedol bob wythnos a bydd yn canolbwyntio ar dair elfen: iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles cyffredinol. Bydd y prosiect yn gwneud hyn trwy helpu i leihau achosion o gwympo a lleddfu'r effaith, lleihau unigedd cymdeithasol a gwella'u gwydnwch a'u hiechyd emosiynol.

Ond os bydd **Pinkspiration** yn derbyn y gefnogaeth fwyaf byddant yn rhedeg y prosiect **Design Factor (£49,920)** a fydd yn dod â phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ynghyd o ardaloedd difreintiedig yn **Abertawe, Casnewydd, Blaenau Gwent, Caerffili** a **Chaerdydd**. Bydd pobl ifanc yn dysgu agweddau craidd ar redeg busnes trwy ddatblygu siopau a mannau gwag yn eu cymunedau a chymryd rhan wrth gynllunio, dylunio a marchnata busnes a rheolaeth ariannol y prosiect.

**Mwy i ddilyn…2/3**

Bydd rhifau pleidleisio ar gael y diwrnod mae'r prosiectau'n ymddangos ar ITV, gyda llinellau pleidleisio'n agor am 9am a'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi y diwrnod wedyn.

Meddai **John Rose, Cyfarwyddwr Cronfa Loteri Fawr Cymru**: "Bob blwyddyn mae Miliynau'r Bobl yn arddangos y gwaith gwych y mae prosiectau'n ei wneud i wneud gwir wahaniaeth yn eu cymunedau lleol, ac mae'r gystadleuaeth hon yn rhoi'r cyfle iddynt ddenu cefnogaeth gan gynulleidfa ar draws Cymru. Mae'r ystod o brosiectau llawn dychymyg ar restr fer Miliynau'r Bobl eleni'n rhoi cyfle go iawn i chi newid bywydau lleol. Rydym am i wylwyr ITV Wales Tonight ddangos eu cefnogaeth dros Miliynau'r Bobl a phenderfynu pa brosiect sydd â'r X-Ffactor yn ei gymuned. Mae pob pleidlais yn bwysig."

Meddai **Phil Henfrey,** Pennaeth ITV Wales, "Bob blwyddyn trwy ITV Wales Tonight, mae gwylwyr yn cael cyfle i leisio eu barn ynglŷn â sut mae miliynau o bunnoedd o arian Loteri'n cael ei wario yn eu hardal leol. Rydym yn edrych ymlaen at gystadleuaeth gyffrous arall eleni a dymunwn bob lwc i'r holl brosiectau sy'n cymryd rhan."

**Swyddog Gwasg y Gronfa Loteri Fawr - Oswyn Hughes 029 2067 8207**
**Cyswllt y tu allan i oriau: 07760 171 431**
**Cyswllt Gwasg ITV Cymru Sarah Drew ar 08448 810 202**
Mae manylion llawn y prosiectau Miliynau'r Bobl i'w gweld yn: www.peoplesmillions.org.uk

**Nodiadau i Olygyddion**

- Mae Miliynau'r Bobl yn bartneriaeth rhwng y Gronfa Loteri Fawr ac ITV sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ddweud eu dweud am sut mae arian Loteri'n cael ei wario yn eu cymuned trwy bleidlais ffôn.
- Mae'r gystadleuaeth yn ariannu prosiectau sy'n gwella bywydau pobl a chymunedau ar draws y DU.
- Eleni mae 76 o ddyfarniadau gwerth hyd at £50,000 ar gael ar draws y DU – pedwar dyfarniad ym mhob rhanbarth ITV (gan gynnwys dyfarniad bonws ar gyfer y prosiect sy'n dod yn ail gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau).
- Hyd yma mae 523 o achosion da ar draws y DU wedi derbyn grantiau trwy'r gystadleuaeth, gan rannu gwerth £27.8 miliwn o arian Loteri. Mae bron tair miliwn o bleidleisiau wedi'u bwrw gan y cyhoedd.
- I gael mwy o wybodaeth am y grwpiau ar y rhestr fer, ewch i wefan Miliynau'r Bobl, www.peoplesmillions.org.uk
- Fel o'r blaen, bydd ITV a'r Gronfa Loteri Fawr yn defnyddio rhif ffôn cyfradd bremiwm cost isel. Nid yw ITV na'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud elw o'r rhifau pleidleisio dros y ffôn.
- Mae'r **Gronfa Loteri Fawr**, dosbarthwr mwyaf arian achosion da y Loteri Genedlaethol yn gyfrifol am ddyrannu 40% o'r arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol.
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r rhai mwyaf anghenus, ac wedi bod yn dosbarthu grantiau ym meysydd iechyd, addysg, yr amgylchedd ac achosion elusennol ar draws y DU. Ers iddi ddod i fodolaeth ym mis Mehefin 2004 mae'r Gronfa wedi dyfarnu bron £6 biliwn.
- Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae 28c o bob punt sy'n cael ei gwario gan y cyhoedd wedi mynd at achosion da. O ganlyniad i hyn mae dros £30 biliwn wedi'i godi a mwy na 400,000 o grantiau wedi'u dyfarnu ar draws meysydd y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau, iechyd, addysg a'r amgylchedd.

**Cyhoeddwyd:**
**WPN 13-09-05**